CYNGOR TREF CAERFYRDDIN
CYFARFOD MISOL Y CYNGOR
CYNHALIWYD AR 30 MAWRTH 2022 AM 7.30YH

Cynhaliwyd y cyfarfod yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan alluogi cynnal cyfarfodydd awdurdodau lleol a gynhelir o 1 Mai 2021 trwy bresenoldeb o bell.

Y Maer, Cyng. Gareth John, oedd yn llywyddu dros y cyfarfod.

PRESENNOL: Cynghorwyr: Baba Gana (cyswllt fideo), Phil Grice, Peter Hughes Griffiths (cyswllt fideo), Gareth John, Angharad Jones Leefe (cyswllt fideo), Alun Lenny (cyswllt fideo), Ken Lloyd (cyswllt fideo), Ioan Matthews, Miriam Moules (cyswllt fideo), Emlyn Schiavone (cyswllt fideo), Jeff Thomas (cyswllt fideo), Matthew Thomas (cyswllt fideo), Wyn Thomas a Barry Williams.

Mr Alun Harries – Clerc y Cyngor Dref
Mrs Emma Smith – Dirprwy Glerc y Dref a Rheolwr Cyllid
Mrs Catrin Llwyd – Cyfieithydd

377. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Arwel Lloyd.

378. Datgan Buddiannau

Y Cynghorydd Alun Lenny ar gyfer eitem 385 isod fel Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin.

379. Cwestiynau gan aelodau

i) *Cyng Phil Grice: Gwobrau Chwaraeon*
Gofynnodd y Cyng. Grice a fyddai Noson Gwobrau Chwaraeon yn cael ei chynnal yn y flwyddyn i ddod. Cadarnhaodd y Clerc y byddai'r noson yn cael ei hadfer eleni, os bydd rheoliad coronafeirws yn caniatáu.
ii) *Cyng Phil Grice: Teithiau Tref Hanesyddol*
Holodd y Cyng. Grice ynghylch ailddechrau'r teithiau tref hanesyddol.
GOHIRIWYD y mater i'r Pwyllgor Dibenion Cyffredinol i'w drafod.

380. Cwestiynau gan y cyhoedd

Dim

381. Cadarnhau a llofnodi Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 23 Chwefror 2022

Cynigwyd gan y Cyng. Phil Grice, eiliwyd gan y Cyng. Wyn Thomas a **PHENDERFYNWYD** derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 23 Chwefror 2022 fel cofnod cywir.

382. Cadarnhau a llofnodi cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2022.

Nodwyd y Cyng. Barry Williams newid i'r cofnodion Cymraeg, i'w nodi ei bresenoldeb yn gorfforol yn hytrach na rhithwir. Gyda'r newid a nodwyd, cynigiwyd gan y Cyng. Angharad Jones Leefe, eiliwyd gan y Cyng. Barry Williams a **PHENDERFYNWYD** derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2022 fel cofnod cywir.

383. Ystyried argymhellion y Pwyllgor neu materion sy'n codi

(i) Tudalen 93 – Eitem 364: Adolygiad o Ardaloedd Cadwraeth yng Nghaerfyrddin
PENDERFYNWYD cefnogi'r adolygiad trwy gytuno i hwyluso digwyddiad yn Neuadd Ddinesig San Pedr, tra'n aros am ragor o wybodaeth gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

384. Cadarnhau a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 10 Mawrth 2022

Cynigwyd gan y Cyng. Ioan Matthews, eiliwyd gan y Cyng. Wyn Thomas a **PHENDERFYNWYD** derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2022 fel cofnod cywir.

Adroddiad Clerc y Dref

385. Cynllunio

i. **PL/03348 -** Estyniad arfaethedig i flaen a chefn yr annedd bresennol i ddarparu toiled ychwanegol a gwell ystafell ymolchi/ystafell gawod ynghyd â lle byw ychwanegol y tu ôl i'r annedd - 1 Heol Drindod, Tre Ioan, Caerfyrddin, SA31 3NU. *Ni wnaed unrhyw sylw gan fod caniatâd eisoes wedi'i roi gan Gyngor Sir Caerfyrddin.*
ii. **PL/03644 -** Estyniad cegin unllawr ochr/cefn arfaethedig gyda dymchwel y garej bresennol a mân newid i'r cynllun llawr presennol. 48, Lôn Pisgwydd, Caerfyrddin, SA31 1SN. **DIM GWRTHWYNEBIAD**
iii. **PL/03619 -** Newid defnydd o swyddfeydd i annedd preswyl. 3 Heol San Pedr, Caerfyrddin, SA31 1LN. **DIM GWRTHWYNEBIAD** i'r datblygiad os yw Swyddog Cadwraeth y Cyngor Sir yn fodlon bod y meini prawf ar gyfer bwrw ymlaen wedi eu bodloni.
iv. **PL/03567 -** Wyneb gwydr newydd gyda llythrennau aur naddu, llythrennau gwyn 3D newydd ar y ffasâd brics, Arwyddion crog cylchol newydd ar y postyn presennol Arwyddion cefn a llythrennau gwyn 3D newydd wedi'u gosod ar y ffasâd presennol. 47-48 Heol y Brenin, Caerfyrddin, SA31 1BH. **DIM GWRTHWYNEBIAD**
v. **PL/03718 -** Estyniad deulawr arfaethedig ar yr ochr a'r cefn i ddarparu ystafell amlbwrpas newydd a garej ar y llawr gwaelod gydag ystafell wely en-suite/ystafell gemau ar y llawr cyntaf - 21, Nant yr Arian, Caerfyrddin, SA31 3JJ**. DIM GWRTHWYNEBIAD**
vi. **PL/03743 -** Trosi gofod swyddfa (Dosbarth B1) yn 12 fflat. fflatiau preswyl hunangynhwysol gyda mân waith uwchraddio allanol ac adleoli mannau parcio i'r anabl - 5-8 Heol Spilman, Caerfyrddin, SA31 1LE. **CEFNOGWYD**

386. Priffyrdd

Dim

387. Trwyddedu

Dim

388. Enwebu Arweinwyr Cynghorau Tref ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2022/23

Cynigiodd y Cyng. Phil Grice y dylid gohirio'r enwebiad tan ar ôl yr etholiad. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Alun Lenny, a **PHENDERFYNWYD** y mater.

389. Aelodau i gynnig ac eilio'r Bleidlais o Ddiolch

Yn unol â'r penderfyniad a nodir yn eitem 388, **CYTUNWYD** gan yr aelodau y byddai angen gohirio'r mater hwn hefyd tan ar ôl yr etholiad.

390. Llywodraethwr Cymunedol – Ysgol Parc Waun Dew

Cynigiodd y Cyng, Ioan Matthews y dylid gwneud y penodiad ar ôl yr etholiad er mwyn caniatáu i unrhyw gynghorwyr newydd gymryd y swydd. Eiliwyd y cynnig hwn gan y Cyng. Phil Grice, roedd pawb o blaid a **PHENDERFYNWYD** y mater.

391. Llythyr Gwerthfawrogiad oddiwrth Eglwys Sant Pedr

NODODD yr Aelodau y llythyr.

392. Aelodaeth o Un Llais Cymru

Cynigiodd y Cyng. Peter Hughes Griffiths y dylid adnewyddu aelodaeth Un Llais Cymru ar gyfer 2022/23 ac eiliwyd gan y Cyng. Ken Lloyd. Yr oedd yr holl aelodau o blaid a **CHYMERADWYWYD** yr aelodaeth.

389. Gohebiaeth

Dim

390. Adroddiad y Maer

Chwefror

24	Opera Ieuenctid Caerfyrddin a'r Cylch – Cynhyrchiad o "Grease"
27	Clwb Bowlio Bro Myrddin - Cyfarfod gyda chynrychiolwyr o'r Clwb

Mawrth

2	Helo Blod - Beirniadu cystadleuaeth Ffenest Fusnes Orau ar gyfer Gŵyl Dewi
3	Casglu sbwriel

Cymdeithas Ddinesig Caerfyrddin – Lansio llyfr am Margaret Evans

5 Parêd Gŵyl Dewi

6 Chwaraeon Anabledd Cymru – Lansiad y gyfres insport – sesiynau parafeicio Actif
Gwylnos Heddwch Caerfyrddin

12 Clwb Bowlio Bro Myrddin - Twrnamaint Cenedlaethol “Champion of Champions”

391. Adroddiadau gan Gynghorwyr fel Cynrychiolwyr y Cyngor ar gyrff allanol

(i) Cofnododd y Cyng. Emlyn Schiavone bresenoldeb mewn cyfarfodydd heddlu rheolaidd.

(ii) Rhoddodd y Cyng. Miriam Moules ddiweddariad ar y prosiect Unigrwydd a chynlluniau ar gyfer yr ail gam.

(iii) Rhannodd Peter Hughes Griffiths wybodaeth am gynlluniau’r Gymdeithas Gefeillio i ddathlu 40 mlynedd o efeillio â Lesneven. Mae ymwelwyr o Lesneven wedi gohirio tan ddiwedd mis Mehefin, oherwydd y pandemig coronafirws.

(iv) Rhoddodd y Cyng. Baba Gana ddiweddariad ar y pandemig parhaus a’r sefyllfa yn Ysbyty Glangwili.

(v) Diolchodd y Cyng. Phil Grice i bawb a fu’n ymwneud â chyhoeddi a lansio’r llyfr ‘Only Blue Skies: The Town That Margaret Loved’.

(vi) Hysbysodd y Cyng. Barry Williams y Cyngor fod Cangen Caerfyrddin o'r Lleng Brydeinig Frenhinol wedi atal gweithredu oherwydd swyddogion yn sefyll lawr a doedd neb arall wedi dod ymlaen.

(vii) Dywedodd y Cyng. Peter Hughes Griffiths wrth yr aelodau fod copïau o’r llyfr ‘Only Blue Skies…’ ar gael yn Neuadd Ddinesig San Pedr i bob aelod.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.25y.h.